Ordinhad 19
Y Llys

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 06 Gorffennaf 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygu diwethaf: Mai 2020

Dyddiad adolygu nesaf: Gorffennaf 2022

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. / This document is also available in English.

ORDINHAD 19
Y LLYS

1. Swyddogaethau

   Swyddogaeth y Llys fydd darparu llwyfan cyhoeddus yn flynyddol ar gyfer cyflwyno gwybodaeth a thrafod gweithgareddau'r Brifysgol.

2. Aelodaeth

   1. Y personau a ganlyn fydd aelodau'r Llys:

      1. Aelodau *Ex-Officio*

         1. Y Canghellor (Cadeirydd);
         2. Y Dirprwy-Gangellorion;
         3. Cadeirydd y Cyngor;
         4. Yr Is-Ganghellor;
         5. Yr Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor/Gangellorion a'r Dirprwy Is-Ganghellor/Gangellorion.

      2. Aelodau eraill o'r Brifysgol (yn ôl diffiniad Ordinhad 1);

      3. Cynrychiolwyr o'r gymuned a bennir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd;

      4. Gall y Cyngor o bryd i'w gilydd benderfynu gwahodd unigolion eraill.

   2. Bydd Clerc y Cyngor yn cadw cofrestr gyfredol o unigolion sydd ar dir i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Llys fel y cytunwyd gan y Cyngor.

3. Cyfarfod Blynyddol

   1. Bydd y Llys yn cyfarfod yn flynyddol i dderbyn gwybodaeth am waith y Brifysgol.

   2. Bydd Cyfarfod Blynyddol y Llys yn cynnwys:

      1. Croeso gan y Canghellor;
      2. Adroddiad ar waith y Brifysgol gan Gadeirydd y Cyngor; ac
      3. Anerchiad gan yr Is-Ganghellor.

   3. Dosberthir rhaglen cyfarfod y Llys yn Gymraeg a Saesneg.

   4. Wrth annerch y Llys, mae gan bob aelod hawl i siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg.